Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Penodi Cadeirydd

Dyddiad Cau: 10:00, 28 Mehefin 2021

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud cais	**2-4**
Atodiad A: Rôl Cadeirydd / Aelod	**6-9**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	**10-11**
Atodiad C: Y broses ddethol	**12-13**

Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Mae hwn yn gyfle cyffrous i arwain Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gwasanaethu poblogaeth o 450,000 sy'n byw ym mwrdeistrefi sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n deall anghenion poblogaeth y Bwrdd Iechyd a phwysigrwydd sicrhau amrywiaeth, cynhwysiant a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd gofyn i'r Cadeirydd newydd ddarparu arweinyddiaeth gref i'r Bwrdd a chynnal gwerthoedd GIG Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y Bwrdd Iechyd yn destun trefn uwchgyfeirio o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Ym mis Ebrill 2019, cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi mewn 'Mesurau Arbennig' ar gyfer Mamolaeth ac 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' ar gyfer Ymddiriedaeth a Hyder, Arweinyddiaeth a Diwylliant ac Ansawdd a Llywodraethu. Er bod cynnydd da wedi'i wneud ers mis Ebrill 2019 mae mwy i'w wneud o hyd o dan arweinyddiaeth y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac yna cliciwch y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith bydd angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy’n dangos sut y mae’ch gwybodaeth a’ch profiad yn bodloni pob maen prawf, gam ddisgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol a sut y byddai hyn yn eich paratoi i gyflawni'r rôl yr ydych yn ymgeisio amdani. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Byddwch cystal â chyfyngu'ch datganiad personol i **1000 o eiriau.** Mae’n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Ni ddylai'ch CV fod yn fwy na **3 tudalen.** Dylai gynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau
Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn. Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

Amserlen fras

Dyddiad Cau:	10:00, 28 Mehefin 2021
Creu rhestr fer:	Gorffennaf 2021
Sesiwn Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:	10 Awst 2021
Cyfweliadau'r panel:	12 a 13 Awst 2021

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl ifanc, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn dileu rhwystrau fel y gall pob penodai cyhoeddus berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Gofynnir i chi nodi a hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn eich cyflwyniad.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, cysylltwch â Mrs Georgina Galletly, Cyfarwyddwr Llywodraethu drwy e-bost yn Georgina.galletly2@wales.nhs.uk a fydd yn trefnu ichi gael yr wybodaeth bellach y gofynnwch amdani neu i siarad â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd os gofynnir am hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Atodiad A

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd y Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethiant effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

- **Yn arwain y Bwrdd wrth iddo ddatblygu Gweledigaeth Strategol** ar gyfer gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, gan wireddu'r sgiliau a'r potensial cynhenid o fewn y sefydliad a'u datblygu i greu gwasanaeth arloesol o'r radd flaenaf sydd a'r nod o wella llesiant a chanlyniadau'r boblogaeth;

- **Yn cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws cyfrifoldebau'r Bwrdd, yn fewnol drwy'r Bwrdd, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid yn y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd ac yn genedlaethol;

- **Yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni'n effeithiol** nodau strategol a gweithredol y Bwrdd Iechyd drwy gyflawni nodau strategol, polisïau a thrwy sicrhau llywodraethiant da;

- **Yn gyfrifol am gynnal** yr ansawdd uchaf o ran safonau ac arferion iechyd cyhoeddus, gan wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd;

- **Yn atebol am berfformiad y Bwrdd** ar lefel y gymuned, yr awdurdod lleol, y Bwrdd ac yn genedlaethol, drwy gytuno ar gynllun tymor canolig integredig tair blynedd a chynllun cyflawni blynyddol, a'r gwerthusiad blynyddol o'r cyraeddiadau yn erbyn y cynllun yn gyhoeddus gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

- **Yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn atebol am** bob un o'i gyfrifoldebau;

- **Yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid**, yn arbennig contractwyr gofal sylfaenol a chyrff eraill y GIG, Prifysgolion, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu cynllunio a'u darparu gyda'r nod o wella canlyniadau i'r boblogaeth;

- **Yn rhoi sicrwydd a threfn lywodraethu ar gyfer gofalu'n briodol am arian cyhoeddus ac adnoddau eraill** y mae'r Bwrdd yn atebol amdanynt;

- **Yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n effeithiol,** yn unol â'r fframwaith a'r safonau a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau trefn agored a thryloyw;

- **Yn mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol,** gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd

Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Hanfodol

Gwybodaeth a Phrofiad

- Y gallu i feithrin gweledigaeth ac arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau diffiniedig wrth geisio cyflawni nodau tymor hir a thymor byr;
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Y gallu i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd drwy gymryd rhan mewn proses gadarn a thryloyw o wneud penderfyniadau;
- Y gallu i ysgogi a datblygu'r bwrdd i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd;
- Ymrwymiad clir i ddeall a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Y gallu i ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a diwylliant, ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif-ffrydio'r Gymraeg.

Priodoleddau Personol a Sgiliau

- Sgiliau rhyngbersonol a dylanwadol cryf a'u gallu i weithredu fel eiriolwr a llysgennad effeithiol;
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn

Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, ond bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad at yr iaith a'r diwylliant, a dangos arweiniad i gryfhau a hyrwyddo

darpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru. Dyma lefel y sgiliau sydd eu hangen:

Dymunol

Deall = 2 – Gall ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd
Darllen = 2 – Gall ddarllen deunydd syml ar bynciau pob dydd
Siarad = 3 – Gall gynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith
Ysgrifennu = 1 – Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 3 Tŷ Ynysmeurig Parc Navigation Abercynon CF45 4SN
Ymrwymiad Amser:	15 diwrnod y mis
Hyd y penodiad:	4 blynedd
Tâl cydnabyddiaeth:	£**59,760** (adolygiad yn yr arfaeth) ynghyd â chostau teithio a threuliau eraill o fewn terfynau rhesymol.

Bydd unigolyn yn anghymwys i'w benodi:

a. os y'i cafwyd yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;
b. os yw'n destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu sydd wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr
c. os yw wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
d. os yw'n aelod presennol o fwrdd corff gwasanaeth iechyd arall yng Nghymru; - ni fydd y ddeiliadaeth wedi dod i ben cyn cychwyn yn y swydd hon os caiff ei phenodi neu'r
- bwriad yw peidio ag ymddiswyddo o'r swydd honno os caiff ei phenodi.

e. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
f. os yw wedi'i gyflogi â thâl gan Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd yng Nghymru o fewn ardal y Bwrdd y mae'n ceisio cael ei benodi iddo, neu os bu yn y sefyllfa honno o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015. http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gwrthdaro Buddiannau
Wrth ymgeisio, gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan gynnwys buddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 1 Ebrill 2019, ac mae'n darparu ac yn comisiynu ystod lawn o wasanaethau ysbyty, cymunedol a gwasanaethau iechyd y boblogaeth i drigolion **Rhondda, Taf Elái, Merthyr Tudful, Cwm Cynon a Pen-y-bont ar Ogwr** Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol (meddygfeydd teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol) a rhedeg ysbytai, canolfannau iechyd a thimau iechyd cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau i breswylwyr gael mynediad at wasanaethau iechyd mwy arbenigol lle na ddarperir y rhain o fewn ffin y Bwrdd Iechyd.

Mae poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys rhyw 450,000 o bobl, gan gynnwys Cynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Gyda thua 12,000 o staff, mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal (10,500 o staff cyfwerth ag amser llawn). Mae nifer sylweddol o'n gweithlu yn byw ac yn gweithio yn y cymunedau hyn. Ceir gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'n cyfleusterau ar ein gwefan. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd yn rheolaidd ar ei berfformiad gan gynnwys Targedau'r Fframwaith Cyflawni a bennwyd gan Lywodraeth Cymru sydd i'w gweld yno hefyd.

Yn ystod 2020, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd **Fodel Gweithredu newydd** sy'n nodi sut y trefnir y Bwrdd Iechyd i gefnogi cadw pobl yn iach a gofalu am ein poblogaeth yn y ffordd orau. Mae hyn wedi arwain at greu tri Grŵp Ardal Integredig (ILGs) sy'n cwmpasu'r boblogaeth y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei gwasanaethu. Mae'r ardaloedd hyn, sy'n cael eu harwain yn glinigol, bellach yn galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn agosach at y dinasyddion hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau Cwm Taf Morgannwg ac felly'n cael eu teilwra'n well i anghenion y boblogaeth leol. Mae'r ffordd newydd hon o weithio wedi grymuso staff ac wedi darparu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth a chyfranogiad wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau o safon, gan ganolbwyntio ar iechyd y boblogaeth.

Ym mis Ebrill 2019, cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei roi mewn 'Mesurau Arbennig' ar gyfer Mamolaeth ac 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' ar gyfer Ymddiriedaeth a Hyder, Arweinyddiaeth a Diwylliant ac Ansawdd a Llywodraethu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella gwasanaethau, a hynny trwy ddysgu gwersi ac mae wedi ymrwymo i wella'n barhaus gan weithio gyda staff, cleifion a theuluoedd a phartneriaid eraill ar draws cymuned Cwm Taf Morgannwg.

Mae ymgysylltu helaeth â staff, sefydliadau partner a'n cymunedau lleol wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ddechrau'r daith i drawsnewid diwylliant sefydliadol i un sy'n seiliedig ar set glir a chyffredin o werthoedd ac ymddygiadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu ei strategaeth fel sefydliad i ganolbwyntio'n wirioneddol ar sut y gallant wella iechyd a llesiant eu poblogaeth yn ogystal â sicrhau eu bod yn parhau i wella canlyniadau a darparu'r gwasanaethau gorau o ansawdd uchel i gymunedau lleol.

Y Gwasanaethau y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn eu cynnal:
Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gyfrifol am gynnal y sefydliadau canlynol ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
- Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC).
- Yr Academi Ddelweddu Genedlaethol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio gyda'r canlynol:
Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys cyrff iechyd eraill, awdurdodau lleol, y gwasanaeth ambiwlans, yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub a'r sector gwirfoddol/elusennol.

Rôl y Bwrdd
Mae pob un o aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhannu'r cyfrifoldeb corfforaethol dros lunio strategaeth, sicrhau atebolrwydd, monitro perfformiad a llywio diwylliant, ynghyd â sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu mor effeithiol â phosib. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, 9 Aelod Annibynnol, 3 Aelod Cyswllt, y Prif Weithredwr ac 8 Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu arweiniad a chyfeiriad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyf-weld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad ac i gymryd rhan mewn cyfarfod â rhanddeiliaid. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth a roddwch yn eich CV a'ch datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad y mae eu hangen. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal proses ddethol gadarn i alluogi ymgeiswyr i ddangos eu sgiliau technegol/arbenigol ac arweinyddiaeth mewn perthynas â rôl y Cadeirydd tra'n rhoi cyfle i ymgeiswyr rannu eu barn ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n rhan o fod yn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Felly, bydd y broses recriwtio yn cynnwys cam lle bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfarfod â chydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd a rhai partneriaid allweddol mewn Sesiwn Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr drafod materion amserol (i'w penderfynu) gyda rhanddeiliaid a fydd yn rhoi adborth i'r panel cyf-weld i gefnogi'r broses recriwtio. Bydd y Sesiwn Ymgysylltu â Rhanddeiliaid hefyd yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ar y rhestr fer ofyn cwestiynau i randdeiliaid cyn cyfweliad y panel.

Bydd y Sesiwn Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cynnwys cydweithwyr o Fwrdd CTMUHB (gan gynnwys y Prif Weithredwr), Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol, y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Undebau Llafur.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd hefyd yn cynnwys David Jenkins, cyn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Ruth Marks fel Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel.

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Mehefin 2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Awst 2021. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yn rhithiol trwy Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, ac yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a bennwyd ar gyfer y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr sydd, ym marn y panel, yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os byddwch yn llwyddiannus, efallai y gofynnir i chi hefyd ddod i wrandawiad Pwyllgor Senedd Cymru – Senedd Cymru. Mae craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol a wneir gan Weinidogion. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses gyffredinol a sicrhau bod y recriwtio yn bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus. Gall y gwaith craffu hwn olygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ac yn ei adolygu. Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Cynhelir gwrandawiadau cyn penodi yn gyhoeddus ac maent yn cynnwys y pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Mae'r gwrandawiadau cyhoeddus hyn yn cael eu cynnal cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol gael ei chynnal.

Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid ymgymryd â gwaith craffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn dilyn adolygiad o wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adran am y broses recriwtio, gall y pwyllgor dethol benderfynu nad oes angen gwrandawiad craffu cyn penodi cyn iddo gyhoeddi ei adroddiad, os yw'n cytuno â dewis y Gweinidog o ymgeisydd.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.